Corlan
Uned 3
Parc Busnes Yr Wyddgrug
Ffordd Wrecsam
Yr Wyddgrug
CH7 1XP

01352 744040

gwybod@menteriaithsirfflint.co.uk

9fed Tachwedd 2009

Annwyl

Canolfan Iaith arfaethedig Sir Y Fflint

Mae Fforwm Iaith Sirol y Fflint wedi cynnal astudiaeth ddiweddar ar ddichonolrwydd datblygu, adeiladu a gweithredu Canolfan Iaith yn ardal wledig Sir y Fflint. Comisiynwyd Mabis, is-gwmni Menter a Busnes sydd gyda swyddfa yn Yr Wyddgrug i weithredu ar ran partneriaid y Fforwm Iaith Sirol i fesur y galw ac i edrych ar hyfywdra canolfan o'r fath.

Cynhaliodd Mabis broses ymgynghori cynhwysfawr gyda phartneriaid y Fforwm er mwyn asesu eu hanghenion, yn ychwanegol cynhaliwyd 4 grŵp ffocws er mwyn asesu dyheadau'r gymuned leol.

Mae casgliadau ac argymhellion y ddogfen yn galonogol ac yn gosod y seiliau nawr inni edrych i'r posibiliadau o sefydlu canolfan bwrpasol a fydd yn darparu gwasanaeth gofal plant yn y Gymraeg yn ogystal â

darpariaeth i ddysgwyr Cymraeg ynghyd a chefnogaeth a gwasanaethau i'r gymuned ehangach - hyn yn gyfan gwbl ddwyieithog. Yn safle sydd wedi cael ei ddynodi fel safle delfrydol yw Tŷ Catrina , Heol Fictoria, Yr Wyddgrug ac mae trafodaethau cychwynnol wedi eu cynnal gyda daliwr trwydded yr adeilad ynglŷn ag edrych ar y posibiliadau o ddatblygu'r safle.

Mae'r Fenter wedi sicrhau cyllid digonol ar gyfer y cam nesaf o'r cynllun ac ar hyn o bryd yn gwahodd penseiri i brisio ar gyfer darparu'r gwasanaeth dylunio.

Mae aelodau'r Fforwm Sirol yn awyddus i sicrhau bod cynrychiolwyr o fudiadau a chymdeithasau cymunedol a gwirfoddol o ardal wledig Sir Y Fflint yn cael cyfle i gyfrannu i'r broses o ddatblygu'r ganolfan, ac yn chwilio am gynrychiolwyr o fudiadau cymunedol lleol i eistedd ar y Grŵp Llywio er mwyn cyfrannu i ddatblygu'r cynllun cyffrous yma.

Os oes diddordeb gennych mewn enwebu cynrychiolydd o'ch mudiad i eistedd ar y Grŵp Llywio a fyddwch cystal â chwblhau'r ffurflen sydd wedi ei atodi, a'i dychwelyd i mi erbyn Dydd Mawrth 24ain Tachwedd.

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Llywio ar **Nos Iau 26ain Tachwedd 2009 am 7.00 yr hwyr yn Corlan,** Parc Busnes Yr Wyddgrug, Stryd Wrecsam, Yr Wyddgrug.

Os hoffech ragor o fanylion neu gopi o'r Adroddiad Dichonolrwydd mae croeso ichi gysylltu gyda mi yn y swyddfa.

Yr eiddoch yn gywir

Gwawr Cordiner
Rheolwr Gyfarwyddwr

amg